



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Anhwylder Diffyg Canolbwyntio

Rydym ar y Llawr Gwaelod Isaf, Neuadd
Rathbone, Ffordd y Coleg, Bangor, LL57
2DF

Cysylltwch â ni i drefnu apwyntiad i weld
cyngorwr:

Ffôn: 01248 383620 / 01248 382032

E-bost: gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk

[http://www.bangor.ac.uk/student-services/
disability/dyslexia.php.cy](http://www.bangor.ac.uk/student-services/disability/dyslexia.php.cy)

**Mae'r daflen ar gael mewn
gwahanol fformatau**

"Cyflwr niwrolegol" yw **Anhwylder Diffyg
Canolbwyntio**¹ a nodweddir gan amrywiaeth
o anawsterau'n ymwneud â chanolbwyntio a
threfnu:

- Canolbwyntio ar dasg.
- Hawdd denu sylw a diflasu'n sydyn.
- Gwrando ar bobl eraill a rhoi sylw i fanylion.
- Colli ac anghofio pethau.
- Bod yn ddi-drefn.
- Gor-freuddwydio.

Mae Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a
Gorfywiogrwydd (ADHD) yn amrywiad ar
Anhwylder Diffyg Canolbwyntio (ADD).
Nodweddir yr anhwylder hwn gan ymddygiad
aflonydd a byrbwyll sy'n gallu dod i'r amlwg
trwy leferydd neu weithredoedd (Moody,
2014²).

Gall myfyrwyr sydd ag Anhwylder Diffyg
Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd fod:

Yn orfywiog:

- Aflonydd.
- Methu setlo.
- Bod 'fel cnonyr' - tapio bysedd neu draed - wastad yn symud.
- Siarad llawer neu yn uchel.

Yn fyrbwyll:

- Torri ar draws cyn i rywun arall orffen siarad.
- Symud o'r naill dasg i'r llall.

I fyfyrwr, gall y nodweddion hyn effeithio
ar eu gwaith, ar eu gallu i reoli amser ac ar
eu perthynas â phobl. Gall hyn arwain at
unigrwydd ac iselder, a gall olygu nad yw
myfyrwyr yn llwyddo mewn ffordd sy'n
adlewyrchu eu cryfderau:

- Gallu meddwl am syniadau creadigol a gwreiddiol.
- Gallu meddwl yn gyflym ac yn reddfrol.
- Meddu ar lawer iawn o frwdfrydedd ac egni.
- Gallu gweld 'y darlun mawr'.
- Mentro pan mae eraill yn amharod i wneud.

¹Honos-Webb, L. 2008 *The Gift of Adult ADD* Oakland, Ca, Harbinger

²Moody, S. (2014) *Dyslexia and Related Syndromes: A Quick Guide*, gwelwyd drwy: www.workingwithdyslexia.com 29 Gorffennaf 2014.

